

Croeso i Gymdeithasfa'r Gogledd

Cynhelir y Gymdeithasfa yn y Gogledd yng Nghapel Berea Newydd, Bangor ar 9 Hydref, a da yw cael gwahodd y cynrychiolwyr i Henaduriaeth Arfon. Hyderwn y ceir diwrnod bendithiol, ac y daw nifer dda ynghyd i drin a thrafod, a mwynhau sgwrs a chymdeithas, a throi at Dduw mewn addoliad a gweddi.



Yn 2016 y cyfarfu'r Gymdeithasfa ddiwethaf o fewn yr Henaduriaeth a Chapel y Rhos, Llanrug oedd y gyrchfan bryd hynny. Y tro hwn bydd y Gymdeithasfa yn ymweld â'r eglwys lle y mae'r Llywydd, Mrs Cynthia Owen yn flaenor, a darpar ysgrifennydd y Gymdeithasfa, y Parchg Elwyn Richards, yn weinidog. Eisoos y mae paratodau ar y gweill i estyn croeso teiliwng i'r cynrychiolwyr, a hyderir hefyd y bydd ordeinio yn oedfa'r hwyr am 7 o'r gloch, ac y daw tyrfa dda o ffrindiau a chefnogwyr ynghyd i dystio i ordeiniad Mr Aled Lewis Evans, Wrecsam.

Fel yr awgryma'r enw, capel gweddol newydd yw Berea Newydd. Fe'i codwyd ar droad y ganrif ar hen safle Ysbyty Dewi Sant pan fu'n rhaid dymchwel yr hen gapel Berea i wneud lle i ddatblygiadau masnachol ar Ffordd Caernarfon. Fel canlyniad cafwyd capel newydd ac adeilad amlbwrpas sy'n cael ei ddefnyddio bron bob dydd o'r wythnos. Nid oes grisiau yn y capel, ac mae'r mynediad iddo ar y gwastad. Ceir hefyd ddigon o le i barcio ryw ddeg ar hugain o geir o fewn ei libart ac mae llwybr troed yn arwain o Rodfa Dewi Sant i lawr i feysydd parcio'r siopau ar Ffordd Caernarfon.

Wedi codi'r capel daeth yn gartref i bum cynulleidfa Bresbyteraidd wrth i eglwysi Berea, Tŵrgwyn, Graig, Caerhun a Phentir ymuno â'i gilydd. Digwyddodd hynny dan arweiniad diogel a chadarn y Parchg Eric Jones, y gweinidog ar y pryd, ac ef hefyd oedd un o'r

rhai mwyaf blaenllaw yn y gwaith o gynllunio'r adeilad a chadw cysylltiad â'r datblygwyr. Fel y gwêl y rhai a ddaw i'r Gymdeithasfa, y mae'n gapel hyfryd gydag adnoddau addas, ac mae hynny'n deyrnged i'r rhai fu'n cynllunio ac yn adeiladu.



*Tua'r Mynyddoedd syllu a wnaif;
P'le y caf gymorth hawddgar?
Fe'i caf oddi wrth yr Arglwydd; ef
A greodd nef a daear.*

Salm 121, Salmu Cân Newydd, Gwynn ap Gwilym

Bellach ni cheir ond tair cynulleidfa anghydfurfiol Gymraeg yn ninas Bangor, sef Berea Newydd, Eglwys y Ffynnon sy'n perthyn i'r Mudiad Efengylaidd ac Eglwys Emaus sy'n ganlyniad uno eglwysi'r Bedyddwyr a'r Annibynwyr. Bydd Berea ac Emaus yn cyd-addoli ym mis Awst ac ar nos Sul unwaith y mis gweddiill y flwyddyn. Ceir yn y ddinas hefyd lawer o weithgarwch ecwmenaidd yn enw Cytûn, ac mae aelodau'r eglwysi yn weithgar gyda bugeiliaid y stryd, Cymorth Cristnogol a grwpiau Agor y Llyfr. Yng nghanol y ddinas saif y Gadeirlan sydd â'i gwreiddiau yn ymestyn yn ôl i'r chweched ganrif. Yma, meddid, y bu i Sant Deiniol, amgáu darn o dir drwy godi clawdd terfyn o byst a gwiall a

elwid yn 'fangor'. Nepell o Berea Newydd y mae allt Penchwintan – "pen cychwyn y tân" yn ôl rhai, sef cyfeiriad at ddyddiau gwrthryfel Owain Glyndŵr. Bid a fo am hynny, ein gobait yw y bydd i'r nefol dân gynnu eto ar aelwyd y Gymdeithasfa ym Mangor.

Parch Ddr. Elwyn Richards

(Lluniau: Cymerwyd o wybodaeth a gasglwyd gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru)

Croesawu Aelod Newydd

Dydd Sul, Medi 1af, derbyniwyd Owain Meirion Edwards, yn gyflawn aelod o eglwys Iesu Grist yng nghapel Salem, Dolgellau. Y Parchedig Dafydd Andrew Jones, Caerdydd, oedd yng ngofal y gwasanaeth ac fe groesawyd Owain yn gynnes i'r praidd yn Salem gan Mr Gerallt Hughes. Cyflwynwyd tystysgrif a Beibl Cymraeg Newydd iddo i nodi'r achlysur arbennig hwn. Y mae Owain yn wŷr i'r Parchedig Dr a Mrs Goronwy Prys Owen, Y Bala. Y mae'n amlwg ei fod yn rhannu'r un diddordeb mewn hanes â'i daid oherwydd y mae ar fin dechrau dilyn cwrs gradd yn y pwnc ym mhrifysgol Caerhirfryn. Pob dymuniad da i ti, Owain.

Llun – Chwith i'r dde: Mr Dwryd Williams (Ysgrifennydd Capel Salem), Owain Meirion, Y Parchedig Dafydd Andrew Jones, Mr Gerallt Hughes (Blaenor).

